# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd 2016
# i'w hateb ar 30 Tachwedd 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro? OAQ(5)0050(EDU) **TYNNWYD YN ÔL**

**2.** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Ninbych-y-pysgod, sydd newydd gael ei hadeiladu? OAQ(5)0058(EDU)

**3.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am addysg wleidyddol a dinasyddiaeth mewn ysgolion? OAQ(5)0055(EDU)

**4.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ysgolion cynradd dwyieithog yng nghanolbarth Cymru? OAQ(5)0054(EDU)

**5.** Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o waith consortia rhanbarthol o ran gwella cyrhaeddiad addysgol yng Nghwm Cynon? OAQ(5)0052(EDU)

**6.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall myfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig, a'u teuluoedd, gael gafael ar gyngor cyfreithiol? OAQ(5)0051(EDU)

**7.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflymder presennol band eang ar gyfer ysgolion yn Islwyn? OAQ(5)0059(EDU) **TYNNWYD YN ÔL**

**8.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg ar gyfer plant tair oed? OAQ(5)0057(EDU)

**9.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella canlyniadau addysgol pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(5)0053(EDU)

**10.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arolygiaeth ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0049(EDU)

**11.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i lywodraethwyr ysgolion? OAQ(5)0060(EDU)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

1. Lee Waters (Llanelli): A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am hawl Llywodraeth Cymru i ymyrryd yn yr achos yn ymwneud ag Erthygl 50 yn y Goruchaf Lys? OAQ(5)0011(CG)

2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith ynglŷn â Bil Cymru? OAQ(5)0013(CG)**W**

3. Jeremy Miles (Castell-nedd): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith tebygol Bil Diddymu Mawr Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth Cymru? OAQ(5)0012(CG)

4. Hannah Blythyn (Delyn): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith y Ddeddf Hawliau Dynol ar ddeddfwriaeth Cymru? OAQ(5)0010(CG)

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ynglŷn â'i gyfraniad i achos apêl Erthygl 50 gerbron y Goruchaf Lys? OAQ(5)0014(CG)**W**

6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch effaith y newidiadau arfaethedig i ymgyfreitha sifil a llysoedd hawliadau bychain? OAQ(5)0008(CG)

7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru? OAQ(5)0009(CG)